

CIO'S RHANBARTHOL

PECYN RECRIWTIO *YMDDIRIEDOLWYR*

CROESO A CHYFLWYNIAD

Annwyl Gyfaill,

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr yn un o'r CIOs rhanbarthol

Pam rydyn ni'n gwneud hyn?

Ar un lefel gellid ystyried ffurfio CIOs rhanbarthol fel ymateb i gyfraith elusennau wrth gefnogi Cymanfaoedd tuag at hunaniaeth gyfreithiol. Yn ei hanfod, fodd bynnag, mae'r prif bwrpas er mwyn ymateb i'r her genhadol clir a'r cyfleoedd a amlinellir yn Adroddiad 2041 (Gellir dod o hyd i grynoded o'r adroddiad hwn yn Atodiad 1). Bydd y pedwar CIO rhanbarthol yn gweithio yn gyd-destunol tuag at lunio a chefnogi prosiectau cenhadol mewn partneriaeth â'r Cymanfaoedd. Trwy stiwardiaeth ddoeth a defnydd creadigol o adnoddau, bydd y CIOs yn anelu at ymuno â chenhadaeth Duw yma yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithio ar y cyd er mwyn dod â newid sylweddol gyda'r nod penodol o rannu gobaith yr Efengyl ym mhob cymuned ledled Cymru.

Beth ydyn ni'n chwilio amdano?

Mae'r CIOs rhanbarthol yn chwilio am Ymddiriedolwyr o bob un o'r Cymanfaoedd rhanbarthol ar draws Cymru a fydd â chalon dros genhadaeth, a ffydd i gefnogi prosiectau cenhadol, pobl, arloeswyr, eglwysi ac anturiaethau ffydd newydd er mwyn gweld cenhadaeth Duw yn dwyn ffrwyth yn y rhanbarth hwnnw. Bydd pob CIO rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan staff o Undeb Bedyddwyr Cymru i wasanaethu yn y gwaith pwysig hwn.

PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S
RHANBARTHOL

Pwy yw Undeb Bedyddwyr Cymru?

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn deulu o Fedyddwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith sy'n gallu olrhain ein hanes yn ôl i 1651 pan sefydlodd John Miles yr eglwys gyntaf gyda'r Bedyddwyr ar Afon Gŵyr ger Abertawe. Heddiw mae'r rhwydwaith hwn i'w weld ym mhob rhan o Gymru, wedi'i gysylltu gan 11 Cymanfa, tua 300 o eglwysi'r Bedyddwyr, Cartref Gofal, nifer o Weinidogion – lleyg, achrededig ac arloesol, coleg diwinyddol ac unigolion a grwpiau amrywiol sy'n gwasanaethu mewn gwahanol ffyrdd i hyrwyddo gwaith Efengyl Iesu Grist yng Nghymru.

Allwch chi helpu?

Os ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person y mae Duw yn ei alw i helpu trwy ddod yn Ymddiriedolwr, darllenwch drwy'r pecyn gwybodaeth hwn ac ystyriwch gyflwyno eich mynegiant o ddiddordeb i'r manylion cyswllt ar y dudalen olaf.

Y RÔL

Y Rôl:

Sicrhau, ar y cyd gydag ymddiriedolwyr eraill, bod y CIO Rhanbarthol yn gweithredu yn unol â'i gyfansoddiad ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol ac i reoli ei weithgareddau er mwyn hyrwyddo'r Cynllun Cenhadaeth a Gweinidogaeth Strategol a'i amcanion.

Y Bwrdd:

Pwrpas y bwrdd yw canolbwyntio ar strategaeth, llywodraethiant, cydymffurfiaeth a pherfformiad y CIO, gan sicrhau bod yr elusen yn gweithio yn unol â'r weledigaeth, y genhadaeth a'r gwerthoedd. Mae gan aelodau'r bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd, sy'n golygu bod ymddiriedolwyr yn unigol gyfrifol am y cyfraniad maen nhw'n ei wneud, ond bob



PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S
RHANBARTHOL

amser yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau fel grŵp. Mae gan wefan y Comisiwn Elusennau wybodaeth fwy cyffredinol am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ymddiriedolwr

Ymrwymiad Amser:

Disgwylir i ymddiriedolwyr fynychu pob cyfarfod ymddiriedolwyr. Yn ogystal â phresenoldeb mewn cyfarfodydd, disgwylir i ymddiriedolwyr neilltuo amser i ddarllen papurau i baratoi ar gyfer cyfarfodydd bwrdd, mynychu cyfarfodydd is-bwyllgor neu grŵp tasg ac ymgymryd â hyfforddiant perthnasol lle bo hynny'n briodol.

Tymor y Swydd:

Penodir ymddiriedolwyr am dymor o 3 blynedd gyda'r cyfle i gael eu haillethol am dymor 3 blynedd arall. Gall ymddiriedolwyr wasanaethu uchafswm o dri thymor yn olynol (h.y. cyfanswm o 9 mlynedd).

Cydnabyddiaeth Ariannol:

Mae hon yn swydd wirfoddol, ond mae treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu.

Cydymffurfiaeth:

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i Gyfansoddiad a'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth elusennol, cyflogaeth, cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch.
- Sicrhau bod y sefydliad yn dilyn ei amcanion fel y'u diffinnir yn ei Gyfansoddiad.
- Sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio ei adnoddau i ddilyn ei amcanion yn unig

Strategaeth:

Rhoi cyfeiriad strategol cadarn i'r sefydliad, gan osod polisi cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a monitro perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt

PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S
RHANBARTHOL

Llywodraethiant:

- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad, gan gynnwys cymeradwyo cyllidebau blynyddol a monitro cynnydd yn eu herbyn, a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.
- Diogelu a rheoli unrhyw eiddo ac asedau'r sefydliad ac i sicrhau buddsoddiad priodol o gronfeydd yr elusen.
- Penodi Cydlynnydd Rhanbarthol ac unrhyw staff angenrheidiol eraill a monitro eu perfformiad.

Dyletswyddau:

- Mynychu'n rheolaidd a chymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd ymddiriedolwyr.
- Craffu ar bapurau bwrdd a phwyllgor.
- Eistedd ar bwyllgorau a chadeirio pwyllgorau yn ôl yr angen.
- I ymarfer gofal a sylw dyledus a defnyddio sgiliau rhesymol wrth ddelio â materion y CIO Rhanbarthol.
- Cymryd yr awenau mewn gweithgareddau lle mae gan yr ymddiriedolwr unigol wybodaeth benodol.
- Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau heb awdurdod.

MANYLEB PERSON

Cymhwysedd:

Rhaid i chi fod yn gymwys i fod yn ymddiriedolwr yn unol â Datganiad Cymhwysedd Ymddiriedolwyr y Comisiwn Elusennau (gweler y ddolen mewn gwybodaeth ychwanegol isod)

Sgiliau penodol:

Rydym yn chwilio am bobl gydag un neu fwy o'r sgiliau canlynol, ond nid yw'r rhain yn rhagofyniad:



PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S
RHANBARTHOL

- Sgiliau arwain neu reoli
- Diogelu
- Sgiliau rheoli ariannol a chyfrifyddu
- Sgiliau trefnus
- Sgiliau marchnata, cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus
- Gwybodaeth am eiddo a / neu eiddo tiriog a phrofiad o reoli eiddo
- Gwybodaeth gyfreithiol
- Cyfraith a llywodraethu elusennau
- Hyfforddiant diwinyddol a/neu arbenigedd
- Profiad cenhadaeth
- Profiad o gadeirio cyfarfodydd
- Profiad blaenorol o ymddiriedolwr/rheoli

Sgiliau Cyffredinol:

- Aelod ymroddedig o eglwys leol (bydd mwyafrif y bwrdd yn dod o Eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru), mewn cydymdeimlad ag ethos, cred a safbwynt y Bedyddwyr
- Parodrwydd a gallu i ddeall a derbyn eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau fel ymddiriedolwyr
- Yn barod ac yn gallu neilltuo amser ac ymdrech angenrheidiol i fod yn effeithiol yn y rôl
- Parodrwydd i arwain yn ôl gwerthoedd y Bedyddwyr: cerdded yn ostyngedig, dod â'n gorau a chofleidio newid
- Y gallu i feddwl yn greadigol ac yn strategol ac ymarfer barn dda, annibynnol
- Dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu achosion lleol y Bedyddwyr yn y rhanbarth ac awydd i helpu
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol a pharodrwydd i gymryd rhan weithredol mewn trafodaeth, gan gynnwys rhannu a herio gwahanol safbwyntiau
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm i wneud penderfyniadau er lles y CIO a'r teulu Bedyddwyr ehangach
- Ymrwymiad personol cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S
RHANBARTHOL

- Y gallu i ddangos atebolrwydd a dal eraill i gyfrif
- Dealltwriaeth o ddyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol, ymddiriedolaeth
- Tact, diplomyddiaeth, didueddrwydd, tegwch a'r gallu i barchu hyder
- Agored i barhau i ddysgu a datblygu yn y rôl

Yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad uchod, rydym yn chwilio am bobl sy'n barod i ddod ag egni, brwdfrydedd ac ymrwymiad i'r rôl, ac a fydd yn sicrhau amrywiaeth eang o feddwl ar y Bwrdd. Bydd cefnogaeth, gwasanaethau ac arweiniad yn cael eu darparu yn ganolog gan UBC.

PROSES YMGEISIO A CHYFWELD



- I wneud cais, anfonwch lythyr/e-bost yn manylu pam rydych chi am wneud cais am y rôl, pa rhanbarth hoffech wasanaethu ac yn amlinellu eich profiad perthnasol i post@ubc.cymru
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: diwedd **Rhagfyr 2025**
- **Ionawr 2026** - Rhestr fer gychwynnol a gynhelir gan Bwyllgorau Enwebu CIO
- **Chwefror 2026** - Sgyrsiau ffurfiol gyda chyfweleion a gynhelir gan Bwyllgorau Enwebu CIO
- **Chwefror 2026** - Yn dilyn cyfweiliadau llwyddiannus, bydd geirda a gwiriadau yn cael eu cynnal
- **Mawrth/Ebrill 2026** - Cyfarfodydd y Cymanfaoedd i gadarnhau penodiad ymddiriedolwyr
- **Pasg 2026** - Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ffurfio'r byrddau CIO ac yn cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu os hoffech sgwrs anffurfiol am y rôl, mae croeso i chi gysylltu â ni ar y manylion isod - byddem wrth ein bodd i glywed gennych. E-bost: Y Parchedig Simeon Baker - simeon@ubc.cymru neu Dr Christian Tucker-Williams christian@ubc.cymru . Ffôn: 0345 222 1514

PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S


RHANBARTHOL

APPENDIX 1: CRYNODEB ADRODDIAD 2041


Ynghyd ag enwadau Cristnogol eraill yng Nghymru ac yn unol â thueddiadau byd-eang gwledydd Cristnogol, mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi profi dirywiad yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae Adroddiad 2041, a gynhyrchwyd ar gyfer yr enwad yn 2021, yn edrych ymlaen at yr ugain mlynedd nesaf ac yn rhoi darlun manwl o'n cyd-destun. Mae'r adroddiad yn awgrymu iechyd a thwf parhaus y tu hwnt i 2041, er gwaethaf y parhad mewn cau eglwysi:

Mae 65% o'r eglwysi o fewn Undeb y Bedyddwyr yn oedrannus ac yn fach o ran nifer a gallwn ddisgwyl i gyfran fawr o'r 200 eglwys hyn gau o fewn yr 20 blynedd nesaf. Mewn rhai achosion efallai y bydd awydd i newid a'r gallu i wneud hynny – rhaid cefnogi ac annog yr achosion hynny; a rhaid i'r eglwysi eraill, wrth gwrs, barhau i dderbyn pob cymorth priodol hyd nes y byddant yn penderfynu cau ar yr adeg y bydd hynny yn addas iddyn nhw. Ond gellir disgwyl i hyd at 35% o'r eglwysi o fewn yr Undeb (hyd at 100 o eglwysi) fod gyda ni o hyd yn 2041. Fel y mae pethau, dim ond yn achos cc 32-40 o eglwysi y mae ffactorau perthnasol ar gyfer bywiogrwydd hir-dymor yn bresennol.

Ond gallwn ni ddisgwyl i hyd at 35% o'r eglwysi (bron i 100 o eglwysi) fod gyda ni o hyd yn 2041



Ffig. 1 Nifer o eglwysi ac aelodau dros amser ers 1971



Ffig. 2 Canran o Eglwysi mewn tri chategori: eglwysi gyda nifer fach o aelodau hŷn (grŵp A); grŵp canol gyda rhai ffactorau twf (grŵp B); eglwysi mwy gyda llawer o ffactorau twf (grŵp C)

PECYN RECRIWITIO YMDDIRIEDOLWYR



Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

CIO'S
RHANBARTHOL

Rhai o'r ffactorau sy'n awgrymu bod eglwys yn goroesi neu'n tyfu yn yr hirdymor yw:

- Fel rheol, 40 neu fwy o aelodau
- Fel arfer, ni rennir y Gweinidog ag eglwysi eraill
- Presenoldeb plant
- Bedyddio credinwyr newydd
- Ffydd a gweledigaeth glir
- Gwaith cymunedol rheolaidd
- Adeilad addas
- Presenoldeb amlwg ar y wê

Fedrwn ni ddim bod yn siwr o ddim o'r uchod – patrymau sydd yma yn unig a mater o ymateb mewn ffydd yw hyn. Mae ffurfio'r CIOs cenhadol newydd yn rhan o'r ymateb hwnnw – fel bod modd i ni fel Bedyddwyr yng Nghymru ddefnyddio'r gwaddol o'r gorffennol i gefnogi eglwysi mewn cenhadaeth i Gymru heddiw.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

[Dolen i wefan UBC](#)

[Dolen i wybodaeth ymddiriedolwyr y Comisiwn Elusennau](#)

[Dolen i ffurflen ddatganiad ymddiriedolwyr y Comisiwn Elusennau](#)